| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **11 Chwefror 2009** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am ollyngiad gan aelodau o Gyngor Cymuned Llanfrothen** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y ceisiadau** |

## Cefndir

1. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i dynnu'r cyfyngiadau a osodir ar gynghorwyr gan y Cod Ymddygiad drwy roddi gollyngiad iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth. Mae paragraff 2 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau") yn gosod yr amgylchiadau lle y medrir rhoddi gollyngiad, ac atodir copi fel **Atodiad 1**.

2. Yn ei gyfarfod ar 9 Medi 2008 ystyriodd y pwyllgor geisiadau am ollyngiadau gan aelodau o Gyngor Cymuned Llanfrothen mewn cysylltiad â chau swyddfeydd post, ac yn benodol swyddfa bost Llanfrothen, oedd wedi ei leoli yn siop y pentref. Roedd rhai aelodau ar fwrdd rheoli Menter Llanfrothen, sy'n berchen ar y siop, a rhai wedi buddsoddi yn y fenter.

3. Penderfynodd y pwyllgor ganiatáu gollyngiad i'r aelodau oedd heb fuddiant ariannol yn y fenter ond gwrthod ceisiadau'r rhai oedd wedi gwneud buddsoddiad. Nodwyd y byddai modd i'r aelodau ail-gyflwyno eu cais os oedd y penderfyniad yn peri trafferthion iddynt ond y dylid cael rhagor o wybodaeth gydag unrhyw gais diwygiedig.

4. Atodir llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2009 oddi wrth y clerc (**Atodiad 2**), sy'n cyflwyno cais ar ran holl aelodau'r cyngor cymuned, gan eu bod i gyd erbyn hyn wedi buddsoddi ym Menter Llanfrothen.

5. Tynnir sylw'r pwyllgor at baragraff 2(a) o'r Rheoliadau sy'n galluogi caniatáu gollyngiad ar y sail fod "*gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol… mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw*".

## Argymhelliad

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar geisiadau aelodau Cyngor Cymuned Llanfrothen am ollyngiad.